**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (DREDGEMAN HILL I POPE HILL, HWLFFORDD, SIR BENFRO) (DILEU CYFYNGIAD) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi. Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd dileu cyfyngiad er mwyn adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt a leolir 867 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd Parc Brickhurst hyd at bwynt a leolir 1800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r un gyffordd. Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgmans Hill, Johnston, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2005 (O.S. 2005/3234 (Cy. 240)) yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 5 Tachwedd 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Hwlffordd, 20 Swan Square, Hwlffordd, SA61 2AN, neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2291047.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 26 Tachwedd 2025.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech ddatgan hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**THE A4076 TRUNK ROAD (DREDGEMAN HILL TO POPE HILL, HAVERFORDWEST, PEMBROKESHIRE) (DERESTRICTION) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(2), 83(1) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984. The effect of the proposed Order will be to derestrict to the national speed limit the lengths of the northbound and southbound carriageways of the A4076 trunk road that extends from a point located 867 metres north-east of the junction of Brickhurst Park to a point located 1800 metres north-east of the same junction. The A4076 Trunk Road (Dredgmans Hill, Johnston, Haverfordwest, Pembrokeshire) (De-Restriction) Order 2005 (S.I. 2005/3234 (W. 240)) will be revoked by the proposed Order**.**

During a period of 21 days from 5 November 2025, a copy of the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked may be inspected during normal opening hours at Haverfordwest Library, 20 Swan Square, Haverfordwest, SA61 2AN, or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA2291047.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 26 November 2025.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government